# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Chwefror 2023

Amser: 09.29 - 10.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13224

# O bell, Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Vikki Howells AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Bethan Garwood (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lisa Hatcher (Swyddog)<br>Aled Elwyn Jones (Swyddog) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths. Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau, fel y'i drafftiwyd.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

## 3 Rheolau Diwygiedig Grwpiau Trawsbleidiol

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y rheolau diwygiedig, yn amodol ar un newid bach ac unrhyw waith tacluso ychwanegol sydd ei angen.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad byr ar y rheolau diwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 4 Adborth ar y weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adborth a chytunwyd i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf, lle byddent yn cael adborth gan y Comisiynydd Safonau.

## 5 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

5.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).